Bisgedi ceirch a sbelt

Mae'r bisgedi maethlon hyn yn cyd-fynd yn berffaith â rhai o gawsiau Cymru ac mae modd eu gwneud yn fwy neu'n llai melys drwy ddefnyddio mwy neu lai o siwgr.

Ar gyfer 15 | **Paratoi** 15 munud | **Coginio** 15 munud

Cynhwysion

110g o flawd ceirch canolig
110g o flawd sbelt gwenith cyflawn
25g – 50g o siwgr mân
¼ llwy de o halen môr Halen Môn*
½ llwy de wastad o soda pobi
85g o fenyn
1 ŵy mawr, wedi'i guro

Dull

01 Cymysgwch y blawd ceirch, y blawd, y siwgr, yr halen a'r soda pobi ynghyd.

02 Rwbiwch y menyn i mewn gyda blaen eich bysedd cyn ychwanegu'r ŵy a chymysgu'r cyfan yn dda.

03 Rhowch y toes ar arwyneb gweithio ac arno haen denau o flawd ceirch. Rowliwch y toes fel ei fod tua 1cm o drwch, a'i dorri'n gylchoedd 7cm.

04 Gosodwch y cylchoedd ar dun pobi wedi'i iro a'u rhoi yn y ffwrn ar wres o 190°C/375°F/Nwy 5 am 10 – 15 munud tan y byddan nhw wedi coginio ac yn lliw aur.

*